# Ysgol Gymunedol Bancffosfelen



Heol y Banc
Bancffosfelen
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5DR
admin@bancffosfelen.ysgolccc.cymru
www.bancffosfelen.ysgolccc.cymru
01269 870272












# Prosbectws

# Prospectus

# Croeso

Mae dewis yr ysgol iawn i'ch plentyn yn hanfodol bwysig. Mae'r rhan fwyaf o rieni eisiau addysg dda i'w plant, ond maen nhw hefyd eisiau iddynt fod yn hapus ac i deimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Yn Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, credwn y gallwn gynnig yr holl bethau hyn. Rydym yn ymfalchïo yn yr addysg eang, gytbwys a llawn a ddarparwn a mae'r safonau uchel o addysgu a dysgu yn glod i waith caled y staff a'u disgyblion.

Rydym yn gwerthfawrogi ein disgyblion ac yn credu y dylai eu hamser yn yr ysgol fod yn wobrwyol ac yn foddhaus.



Os ydych yn dewis danfon eich plentyn i Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, rwy'n hyderus y byddwch wedi gwneud y dewis gorau! Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, gallwch gysylltu â mi yn yr ysgol ar unrhyw adeg. Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at gwrdd â chi yn fuan!

**Mr. Thomas Gullick**

Pennaeth

# *Welcome*

*Choosing the right school for your child is vitally important. Most parents want a good education for their children, but they also want them to be happy and to feel safe in school. In Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, we believe we can offer all these things. We pride ourselves on the broad, balanced and full education that we provide, and the high standards of teaching and learning are a credit to the hard work of both the staff and their pupils. We value our pupils and believe that their time in school should be rewarding and fulfilling. Should you choose to send your child to Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, I am confident that you will have made the best choice! If you have any queries or concerns, you can contact me at the school at any time. I very much look forward to meeting you soon!*



***Mr. Thomas Gullick***

*Headteacher*

# Cefndir / *Background*



Agorodd Ysgol Gymunedol Bancffosfelen ei ddrysau am y tro cyntaf ar Fai'r 1af, 1877, o dan yr enw Bancffosfelen Board School. Mae sawl newidiad wedi bod dros y 147 o flynyddoedd diwethaf, ond mae'r adeilad dal i sefyll ac heddiw'n cynnig addysg i ddisgyblion y pentref a'r pentrefi o'i amgylch.



*Ysgol Gymunedol Bancffosfelen opened its doors for the first time on May the $1^{st}$, 1877, under the name Bancffosfelen Board School. There have been several changes over past 147 years, but the building is still standing and today offers education to pupils from the village and surrounding villages.*

# Ein Gweledigaeth
# *Our vision*

"Cyd-baratoi heddiw at ddyfodol yfory"

Yn Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, rydym yn cynnig addysg a gofal o'r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar, diogel fel bo pob plentyn, beth bynnag ei allu, yn cyrraedd ei lawn potensial.

*In Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, we offer education and care of the highest standard, in a happy, caring, active, safe environment, so that all pupils, whatever their ability, reach their full potential.*

# Ein Gwerthoedd
# *Our values*






**Galluog**

**Creadigol**

**Hyderus**

**Gwybodus**





# Pwy ‘dy pwy?
# *Who’s who?*

**Pennaeth / *Headteacher*:**
Mr Thomas Gullick

**Athrawon / *Teachers*:**
Mrs Amanda Rees
Mrs Susan Simpson

**CADY / *ALNCo*:**
Mr Thomas Gullick

**Cynorthwyydd Dysgu / *Teaching Assisstants*:**
Mrs Siân Williams
Miss Shannon Hopkins

**Swyddog Cefnogi’r Ysgol / *School Support Officer***
Mrs Miriam Evans

**Gofalwr / *Caretaker*:**
Mr Roger Selwood

**Cadeirydd y Llywodraethwyr / *Chair of Governors*:**
Mr Andrew Barlow
andrew.barlow@bancffosfelen.ysgolccc.cymru



# Ein Cwricwlwm

## Cwricwlwm am Oes. Cwricwlwm i Bwrpas.

*Cwricwlwm sy'n ymatebol, yn heriol ac wedi'i adeiladu ar berthnasoedd cryf.*

| Rydym am ddatblygu dysgwyr sy'n dod yn gynyddol: | | | |
|---|---|---|---|
| Dysgwyr uchelgeisiol, galluog | Cyfranwyr mentrus, creadigol | Dinasyddion egwyddorol, gwybodus | Unigolion iach, hyderus |

| ... sy'n ymarfer ac yn mireinio'r sgiliau hanfodol hyn yn ystyrlon o fewn profiadau sy'n ennyn diddordeb a chyfleoedd dysgu dilys: | | | |
|---|---|---|---|
| Effeithiolrwydd Personol | Creadigrwydd ac Arloesi | Cynllunio a threfnu | Meddwl yn feirniadol a datrys problemau |

| Mae'r genhadaeth hon yn cael ei hwyluso drwy gydol eu taith ddysgu gan ddefnyddio: | | |
|---|---|---|
| **Profiadau sy'n ennyn diddordeb** | **Oedolion sy'n galluogi dysgu** | **Amgylcheddau effeithiol** |
| Cyfleoedd dysgu gweithredol<br>Dysgu dilys a phwrpasol | Ymarferwyr ymatebol<br>Asesu ffurfiannol | Amgylcheddau tu mewn a thu allan a ddatblygwyd yn feddylgar<br>Defnydd rheolaidd o amgylcheddau awyr agored a'r byd go iawn |

| Y pum llwybr datblygu y cwricwlwm nas cynhelir | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Perthyn | Cyfathrebu | Archwilio | Datblygiad corfforol | Lles |


| Sgiliau Trawsgwricwlaidd | | |
|---|---|---|
| Llythrennedd | Rhifedd | Cymhwysedd Digidol |

| Meysydd Dysgu a Phrofiad y CiG a'r 27 Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Celfyddydau mynegiannol | Iechyd a lles | Dyniaethau (gan gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu | Mathemateg a rhifedd | Gwyddoniaeth a thechnoleg |

| Themau Trawsgwricwlaidd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addysg cydberthynas a rhywioldeb (RSE) | Hawliau Dynol | Amrywiaeth | Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith | Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol |

| Mae'r egwyddorion cynnydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu mewn ffordd gyfannol a chydlynol: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu effeithiolrwydd | Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth | Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y meysydd | Mireinio a thyfu soffistigedigrwydd wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau | Gwneud cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd | Y pum hyfedredd mathemategol |


# Ein gwerthoedd a chymeriadau pedwar diben









# Ysgol Gymunedol Bancffosfelen
# Bancffosfelen Community School

*"Cyd-baratoi heddiw, at ddyfodol yfory."*
*"Planning together today, for tomorrow's future."*

## Crynodeb o Gwricwlwm yr Ysgol

Mae cwricwlwm unigryw Ysgol Bancffosfelen wedi'i lunio ar gyfer ein dysgwyr gan ein hathrawon. Drwy ymgysylltu'n agos â'n rhieni â'n llywodraethwyr a chasglu barn pob plentyn, mae ein staff wedi adeiladu ar eu harbenigeddau i greu cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn 'ysgogi' ac yn 'annog' pob disgybl.

**Ein Gweledigaeth:**


Yn Ysgol Bancffosfelen, rydym yn Cynnig **addysg a gofal o'r safon uchaf** mewn **awyrgylch hapus, caredig, gweithgar, diogel** fel bo pob plentyn, beth bynnag ei allu, yn cyrraedd ei **lawn potensial.**





**Ein Gwerthoedd:**

*Gofalgar*
*Galluog*
*Creadigol*
*Iachus*
*Cymreig*



**Sut rydym yn cyflawni hyn?**

Mae'r Pedwar Diben yn sail i bob agwedd o'n cwricwlwm. Rydym yn darparu profiadau cyfoethog a chofiadwy ac yn adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth ein plant er mwyn eu cefnogi i fod yn;

1. ddysgwyr uchelgeisiol, galluog,
2. gyfranwyr mentrus, creadigol,
3. ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
4. unigolion iach, hyderus.

Rydym yn addysgu'n thematig, trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 7 oed ac yn ddwyieithog hyd at 11 oed, er mwyn bywiogi'n dysgu ac er mwyn creu profiadau dysgu sydd yn berthnasol ac yn ystyrlon. Caiff ein plant gyfleoedd i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio sgiliau trwy weithgareddau unigol, pâr neu grŵp mewn cyd-destunau amrywiol ar draws y cwricwlwm. Mae ein cwricwlwm yn cwmpasu profiadau, sgiliau a gwybodaeth yn gyfartal ar draws y 6 Maes Dysgu a Phrofiad (Mathemateg a Rhifedd, Ieithoedd a Llythrennedd, Iechyd a Lles, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Dyniaethau, Celfyddydau Mynegiannol), gan gynnwys y 27 gosodiadau o'r hyn sy'n bwysig, ac yn plethu cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol i'r profiadau hynny. Yn unol â'n gwerthoedd cryf, rydym yn rhoi ystyriaeth lawn i hawliau dynol gan sicrhau ein bod yn diwallu gofynion cwricwlaidd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Hawliau Plant ac Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith.

**Cwricwlwm Byw**

Drwy fonitro a gwerthuso parhaus, ac wrth wrando'n gyson ar staff, dysgwyr, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned (holiaduron, nosweithiau agored), byddwn yn adolygu ac yn addasu ein cwricwlwm yn rheolaidd. Bydd hyn sicrhau bod ein cwricwlwm yn gynhwysol, yn berthnasol, yn ymateb i anghenion ein disgyblion a'n cymunedau ac yn parhau i gynnig profiadau cyfoethog a chofiadwy i'n dysgwyr.



**Asesu a Chynnydd**

Mae asesu yn rhan o bob profiad dysgu ac addysgu yn Ysgol Bancffosfelen ac yn cynnwys hunan-asesu, asesu cyfoedion ac adborth athrawon. Mae hyn yn caniatáu i ni lunio darlun holistaidd o gynnydd pob disgybl a sefydlu gweithdrefnau plentyn ganolog effeithiol. Mae ein dysgwyr yn cydweithio gyda'u hathrawon i ddeall eu cynnydd ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae ein dulliau asesu, sy'n cynnwys; cyfarfodydd cynnydd tymhorol rhwng y staff addysgu, asesiad ar fynediad i adnabod man cychwyn pob disgybl, ac asesiadau rhifedd a llythrennedd mewnol, yn ein galluogi i gefnogi a herio dysgwyr, i fyfyrio ar gynnydd dros amser ac i ddeall cynnydd grwpiau o ddysgwyr. Rydym yn ystyried cynnydd yn y medrau ar draws y cwricwlwm (Rhifedd, Llythrennedd a Chymhwysedd Digidol) er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr o bob oed a gallu. Rydym yn adrodd ar gynnydd eich plentyn gyda chi rieni yn aml, drwy nosweithiau rhieni, adroddiad diwedd flwyddyn a chyfarfodydd cefnogi disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol.



# Our Curriculum

## A Curriculum for Life. A Curriculum for Purpose.

*A curriculum that is responsive, suitably challenging and built upon strong relationships.*

| We want to develop learners who progressively become: | | | |
|---|---|---|---|
| Ambitious, capable learners | Enterprising, creative contributors | Ethical, informed citizens | Healthy, confident individuals |

| That meaningfully rehearse and refine these integral skills within engaging experiences and authentic learning opportunities: | | | |
|---|---|---|---|
| Personal Effectiveness | Creativity & Innovation | Planning & Organising | Critical Thinking & Problem Solving |

| This mission is facilitated throughout their learning journey using: | | |
|---|---|---|
| **Engaging Experiences** | **Enabling Adults** | **Effective environments** |
| Active learning opportunities<br>Authentic and purposeful learning | Responsive practitioners<br>Formative assessment | Thoughtfully developed indoor environments<br>Regular use of outdoor and real-world environments |

| The five developmental pathways of the non-maintained curriculum | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Belonging | Communication | Exploration | Physical development | Well-being |


| Cross Curricular Skills | | |
|---|---|---|
| Literacy | Numeracy | Digital Competence |

| Areas of Learning and Experience of the CfW and the 27 Statements of What Maters | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Expressive arts | Health and well-being | Humanities (inc RVE) | Languages, literacy and communication | Mathematics and numeracy | Science and technology |

| Cross Cutting Themes | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Relationships & Secuality Education (RSE) | Human Rights | Diversity | Careers & Work-Related Experiences | Local, National & International Contexts |

| These principles of progression ensure that learners develop in a holistic and coherent way: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Increasing effectiveness | Increasing, breadth & depth of knowledge | Deepening understanding of the ideas and disciplines within the areas | Refinement and growing sophistication in the use and application of skills | Making connections and transferring learning into new contexts | The five mathematical proficiencies |

# Our values and four purposes characters


Iestyn Iachus


Gwenno Gofalgar


Gareth Galluog


Cadi Creadigol

# Ysgol Gymunedol Bancffosfelen
# Bancffosfelen Community School

*"Cyd-baratoi heddiw, at ddyfodol yfory."*
*"Planning together today, for tomorrow's future."*

## Summary of the School Curriculum

The unique curriculum of Ysgol Bancffosfelen has been designed for our learners by our teachers. By closely engaging with our parents and governors and gathering the opinions of every child, our staff have built on their expertise to create a broad and balanced curriculum that 'inspires' and 'encourages' every pupil.

**Our Vision:**


At Ysgol Bancffosfelen we provide a **high standard of education and care** within a **happy, caring, active and safe environment** so that all pupils, whatever their ability, **reach their full potential**.





**Our Values:**

Caring
Intelligent
Creative
Healthy
Welsh



**How do we achieve this?**

The Four Purposes are the foundation for every aspect of our curriculum. We provide enriching and memorable experiences and build on the skills and knowledge of our children to support them in becoming

1. ambitious, capable learners,
2. enterprising and creative contributors,
3. ethical, informed citizens,
4. healthy, confident individuals.

We teach thematically, through the medium of Welsh until 7 years old and bilingually until 11 years old, to energize our learning and to create learning experiences that are relevant and meaningful. Our children are given opportunities to acquire, develop, practice, apply, and refine skills through individual, pair, or group activities in various contexts across the curriculum. Our curriculum equally encompasses experiences, skills, and knowledge across the six Areas of Learning and Experience (Mathematics and Numeracy, Languages and Literacy, Health and Wellbeing, Science and Technology, Humanities and Expressive Arts), including the 27 statements of what matters, and intertwines cross-curricular responsibilities of literacy, numeracy, and digital competence into those experiences. In line with our strong values, we consider human rights, ensuring that we meet the curricular requirements of Religion, Values, and Ethics, Relationships and Sexuality Education, Children's Rights, and Careers and Work-Related Experiences.

**Living Curriculum**

Through continuous monitoring and evaluation, and by consistently listening to staff, learners, parents, governors, and the community (questionnaires, open evenings), we will regularly review and adapt our curriculum. This will ensure that our curriculum is inclusive, relevant, responsive to the needs of our pupils and communities, and continues to provide enriching and memorable experiences for our learners



**Assessment and Progress**

Assessment is a part of every learning and teaching experience at Ysgol Bancffosfelen and includes self-assessment, peer assessment, and teacher feedback. This allows us to create a holistic picture of each learner's progress and to establish effective child centred practices. Our pupils collaborate with their teachers to understand their progress and identify the next steps in their learning. Our assessment methods include; termly progress meetings between teaching staff, on entry assessments to identify every pupils starting point and internal literacy and numeracy assessments, enabling us to support and challenge learners, reflect on their progress over time, and understand the progress of learner groups. We consider progress in the skills across the curriculum (Numeracy, Literacy, and Digital Competence) to ensure the progress of learners of all ages and abilities. We report on progress to you parents often through parents' evenings, end of year reports and pupils support meetings for pupils identified with Additional Learning Needs.



# Beth yw amseroedd yr Ysgol?
# *What are the school times?*

**Diwrnod Ysgol**
**Clwb Brecwast**
8:15 – 8:30
**Drws yr ysgol yn agor** – 8:45

**Meithrin i Flwyddyn 2**
Sesiwn y bore: 9:00 – 12:00
Cinio: 12:00 – 1:00
Sesiwn y prynhawn: 1:00 – 3:10

**Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6**
Sesiwn y bore: 9:00 – 12:00
Cinio: 12:00 – 1:00
Sesiwn y prynhawn: 1:00 – 3:20

***School Day***
***Breakfast Club***
*8:15 – 8:30*
***School door opens** – 8:45*

***Nursery to Year 2***
*Morning session: 9:00 – 12:00*
*Lunch: 12:00 – 1:00*
*Afternoon session: 1:00 – 3:10*

***Year 3 to Year 6***
*Morning session: 9:00 – 12:00*
*Lunch: 12:00 – 1:00*
*Afternoon session: 1:00 – 3:20*

# Beth ydy dyddiadau'r tymor?
# *What are the term dates?*

| Term | Term begins | Half Term | Term Ends |
|---|---|---|---|
| Autumn 2025 | Tuesday 2nd September | Monday 27th October to Friday 31st October | Friday 19th December |
| Spring 2026 | Monday 5th January | Monday 16th February to Friday 20th February | Friday 27th March |
| Summer 2026 | Monday 13th April | Monday 25th May to Friday 29th May | Monday 20th July |

# Beth os bydd fy mhlentyn yn sal?
# *What if my child is ill?*

Mae'n rhaid i rieni/warchodwyr hysbysu'r ysgol o'r rheswm dros absenoldebau eu plant. Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd:

- Gellir hysbysu'r Pennaeth neu'r athro/athrawes ddosbarth yn bersonol pan fydd rhiant yn hebrwng plentyn arall i'r ysgol.
- Gellir hysbysu'r ysgol trwy alwad ffôn: 01269 870272.
- Nodyn neu e-bost yn egluro'r rheswm dros yr absenoldeb.

*Parents/Guardians must inform the school of the reason for their children's absences. This can be done in several ways:*

- *The Headteacher or class-teacher could be informed in person when a parent is bringing another child to school.*
- *The school could be informed by telephone: 01269 870272.*
- *A note or email explaining the reason for the absence.*

# Meddyginiaeth / *Medicines*

Yn unol â Pholisi yr Adran Addysg, mae'n rhaid gofyn i'r athro dosbarth cyn i'r ysgol fedru rhoi unrhyw fath o feddyginiaeth, gan gynnwys pwmp asthma, i ddysgwr. Mae ffurflenni cais ar gael o'r ysgol. Darperir ar gyfer dysgwyr sydd yn dioddef o anghenion meddygol penodol, er enghraifft, alergedd cnau, asthma a chlefyd y gwaed.

*In accordance with the Education Department's Policy, a request must be made to the class teacher to administer any type of medication, including inhalers, to a learner. Application forms are available from the school. Learners with specific medical needs, for example, a nut allergy, asthma and diabetes are provided for.*

# Sut ydw i'n cofrestru enw fy mhlentyn ar gyfer mynediad i'r ysgol?
# *How do I put my child's name down for admission?*

I gofrestru dysgwyr yn yr ysgol, gall rhieni gofrestru eu plant ar lein ar www.sirgar.gov.uk . Gellir sicrhau mynediad i bob grwp blwyddyn pan na fydd nifer y dysgwyr yn y grwp blwyddyn yn uwch na'r nifer safonol ar gyfer mynediad i'r ysgol. Ar hyn o bryd y nifer ar gyfer mynediad i'r ysgol yw 12. Gofynnir i rieni roi enwau eu plant ar restr aros cyn gynted â phosibl i osgoi cael eu siomi. Mae hyn yn helpu sicrhau bod lle ar gael ac yn cynorthwyo'r ysgol wrth gynllunio adnoddau dynol a materol ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

*To register learners at the school, parents can register their child online at www.sirgar.gov.uk . Admission to all other year groups can only be assured where the number of learners already in that year group does not exceed the school's standard admission number. At present, the School's Admission Number is 12. Parents are asked to put the names of their children on the waiting list as soon as possible to avoid possible disappointment. This helps to ensure that there is a place available, and it enables the school to plan the human and material resources for each school year.*


# Pontio i'r uwchradd / *Transition to secondary*

Mynycha y rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth. Er hynny, mae mynediad i ysgol uwchradd yn seiliedig ar gyfeiriad cartref ac nid yr ysgol gynradd y mynychir. Bydd angen cyflwyno cais ar gyfer addysg uwchradd i'r awdurdod lleol yn Nhymor yr Hydref yn ystod blwyddyn olaf eich plentyn yn yr ysgol gynradd.


*Most pupils from Ysgol Gymunedol Bancffosfelen attend Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth. However, entry to secondary schools is not based on the primary school they attend but rather their home address. Applications for secondary school will need to be submitted to the local authority in the Autumn Term of your child's final year at primary school.*

# Presenoldeb / *Attendance*

Mae staff yn cwblhau'r gofrestr pob bore a phrynhawn. Os ydy'ch plentyn yn absennol a'ch bod chi heb hysbysu'r ysgol gyda rheswm, fe'i cofnodir fel absenoldeb anawdurdodedig. Yr ydym yn apelio atoch chi fel rhieni i gysylltu gyda'r ysgol, naill ai trwy alwad ffôn neu e-bost er mwyn rhoi gwybod am natur absenoldeb eich plentyn. Yr ydym yn monitro absenoldeb yn ofalus ac yn dathlu presenoldeb uchel unigolion a dosbarthiadau.




Anogir rhieni i beidio cymryd eu plant ar wyliau yn ystod amser ysgol ac efallai bydd yr absenoldeb yma'n cael ei nodi'n anawdurdodedig. Er, os ydych yn dymuno mynd â'ch plentyn ar wyliau yn ystod amser ysgol, gofynnwn i chi gwblhau ffurflen gais gwyliau o achos diogelu. Mae'r ffurflen yn tynnu sylw'r ysgol at ble mae'ch plant yn ystod yr amserlen dylai fod yn ysgol.






Mae presenoldeb da yn hanfodol i llwyddiant a chynnydd addysgol. Ein nod ydy sicrhau presenoldeb pob plentyn i fod dros 95%.

Os mae presenoldeb eich plentyn yn cwympo o dan 95%, byddwn yn cynnal cyfarfodydd presenoldeb i roi cymorth i godi presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol. Os mae teuluoedd yn methu cymryd rhan yn gwella presenoldeb eu plant bydd y tîm lles addysgol yn cefnogi'r ysgol a'r teulu i wella presenoldeb eich plentyn.

| | Presenoldeb / Attendance | Absenoldeb Awdurdodedig / Athourised Absence | Absenoldeb Anawdurdodedig / Unauthorised Absence |
|---|---|---|---|
| **2024/2025** | 92.89% | 6.36% | 0.75% |

# Presenoldeb / *Attendance*




*Staff complete the register every morning and afternoon. If your child is absent and we have not been notified of a reason, it will be recorded as an unauthorised absence. We appeal to you as parents to contact the school, either by telephone call or email to inform us of the nature of your child's absence. Attendance is monitored closely, and high attendance of individuals and classes is celebrated.*

*Families are discouraged from taking their children on holidays during school's time and this absence may be recorded as unauthorised. However, before you take your child on holiday you must complete a holiday request form for safeguarding reasons. This will ensure that the school is aware of where your child is when they should be in the care of the school.*

*Good attendance is key for educational success and progress. We aim to ensure that the attendance of all children is above 95%.*

*If children's attendance falls significantly below this level, then attendance review meetings will be held to support your child's attendance at school. If families fail to engage with the school to improve the attendance, then the educational welfare team will support the school and family to improve the child's attendance.*

| | Presenoldeb / Attendance | Absenoldeb Awdurdodedig / Athourised Absence | Absenoldeb Anawdurdodedig / Unauthorised Absence |
|---|---|---|---|
| **2024/2025** | 92.89% | 6.36% | 0.75% |

# Diogelu / Safeguarding

Uwch Swyddog Diogelu'r ysgol ydy Mr Thomas Gullick a Dirprwy Swyddogion Diogelu'r ysgol ydy Mrs Amanda Rees a Mrs Susan Simpson. Swyddog Diogelu Llywodraethol ydy Mrs Davinia Davies. Mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi os maent yn anhapus neu'n ofidus. Arddangosir lluniau o'r holl staff a swyddogion diogelu ar draws yr ysgol. Mae pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant Gwarchod Plant. Cynhelir dril tân unwaith pob tymor i sicrhau bod staff a disgyblion yn gadael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel.

Gofynnwn i bob ymwelydd i ganu'r gloch ac aros am aelod o staff. Does dim hawl i'r dysgwyr agor y drws i ymwelwyr. Mae gofyn i bob ymwelydd arwyddo mewn i'r ysgol a gwisgo bathodyn ymwelydd.

*The Senior Safeguarding Officer at school is Mr Thomas Gullick. The Deputy Safeguarding Officers are Mrs Amanda Rees and Mrs Susan Simpson. The Safeguarding Officer on the Governing Body is Mrs Davinia Davies. Pupils are aware of who to speak to in school if they are worried or unhappy. Photographs of all staff and safeguarding officers are on display across the school. All staff have received training in Safeguarding. A fire drill is held once every term to ensure swift evacuation of staff and pupils.*

*All visitors are requested to ring the bell and await a member of staff. Children are not allowed to open the door to visitors. All visitors are requested to sign in and must wear a visitor badge.*



**Mrs Amanda Rees**
ATHRAWES
IS-SWYDDOG DIOGELU



**Mrs Susan Simpson**
ATHRAWES
IS-SWYDDOG DIOGELU



**Mr Thomas Gullick**
PENNAETH
UWCH SWYDDOG DIOGELU



**Mrs Davinia Davies**
IS-GADEIRYDDES Y LLYWODRAETHWYR
LLYWODRAETHWR DIOGELU

**Gallwch dderbyn copi o bolisi Diogelu ac Amddiffyn yr ysgol wrth wefan yr ysgol neu drwy wneud cais i swyddfa'r ysgol.**

***A copy of the school's Safeguarding policy can be seen on the school's website and by making a request to the school's office.***

# Ydy'r ysgol yn codi tâl am weithgareddau?

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd yr ysgol yn darparu gweithgareddau trawsgwricwlaidd am ddim ar gyfer y dysgwyr. Ar adegau, nid yw'n bosibl i'r ysgol dalu am weithgaredd, e.e. gwibdeithiau ysgol. Mewn achosion fel hyn bydd y GRAFf yn cyfrannu'n wirfoddol tuag at y costau teithio ac unrhyw gostau ychwanegol. Os bydd unrhyw riant eisiau cymorth ariannol tuag at gost gweithgaredd, gallent gysylltu â'r pennaeth ar adeg addas a gofyn am gael eu rhyddhau o dalu. Bydd yr ysgol yn codi tâl am y gweithgareddau canlynol yn unig:

- Gwibdeithiau addysgol, lle y gofynnwn i rieni am gyfraniad.
- Gweithgareddau traws-gwricwlaidd wedi'u trefnu gan sefydliadau allanol.

# *Does the school charge for activities?*

*Wherever possible, the school will provide extra-curricular activities at no cost to the learner. Occasionally the school will not be able to meet the cost of an activity e.g. school trips. In such situations the PTFA will contribute towards travel costs and parents will be asked for a voluntary contribution towards the remaining costs. If any parent feels they need financial assistance towards the cost of an activity, then they can approach the headteacher at the appropriate time requesting remission. The school will only charge for the following activities:*


- *Educational trips, where we ask parents for contributions.*
- *Extra-curricular activities organized by external organizations.*

# Cinio Ysgol / *School Dinners*

O Fedi 2024, mae disgyblion o'r Meithrin i Flwyddyn 6 yn deilwng am PYDdYG (Prydiau Ysgol am Ddim i bob disgybl Ysgol Gynradd). Os ydych chi'n meddwl eich bod yn deilwng am PYDd a'r grantiau sy'n lwm, yna gallwch wneud cais i Gyngor Sir Caerfyrddin.

*As of September 2024, pupils from Nursery to Year 6 are entitled to UPFSM (Universal Primary Free School Meals). If you think you may be entitled to FSM (Free School Meals) and the grants attached, please apply via Carmarthenshire County Council.*

# Iaith Gymraeg / *Welsh Langage*



**Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae Ysgol Gymunedol Bancffosfelen yn Ysgol Cyfrwng Cymraeg – Categori 3**

Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

---

***In line with Welsh Government guidance, Ysgol Gymunedol Bancffosfelen is a Welsh Medium School - Category 3***

*Welsh is the main language for internal communication in the school. It communicates with parents and carers in either Welsh, English or bilingually as required. This is a school with a strong Welsh ethos, supporting and enabling learners to use Welsh in all social contexts within and outside the school. In an immersion setting all learners are fully taught in Welsh, with English used at times to ensure understanding during the early immersion period. From the age of 7 onwards at least 80% of the learner's school activities (curricular and extra-curricular) will be in Welsh.*

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae polisi'r ysgol ar Addysg Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dangos ein bod yn glynu at Lawlyfr Cynhwysiant a gyhoeddwyd gan y sir i ofalu am ofynion y disgyblion mwy a llai galluog. Cynhelir profion cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd yn nhymor yr Haf. Gydag asesiadau rheolaidd a gofalus gan yr athrawon trwy'r flwyddyn a'r trafodaethau proffesiynol yn sgil datblygiad disgyblion, mae'r ysgol yn adnabod y rhai sydd angen cefnogaeth arbennig. Lle y bo angen, gwneir trefniadau arbennig i sicrhau bod y dysgu'n cwrdd â'u hanghenion. Os bydd enw disgybl ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol, hysbysir y rhieni/warchodwyr.

Gwahaniaethir y gwaith a ddarperir ar gyfer y plant o fewn cynlluniau pob athro/athrawes, gan gymryd i ystyriaeth gwahanol gallu'r plant yn eu dosbarthiadau.

Mae gan bob plentyn ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Gynllun Datblygu Unigol a Phroffil Un Dudalen. Cynhelir Adolygiadau Person Canolog yn flynyddol gyda rhieni sydd â phlant ar y gofrestr ADY. Dyletswydd yr ysgol yw adolygu a gwerthuso'r datganiadau a'r holl ddarpariaeth a wneir ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rheolaidd. Mae gan yr ysgol bartneriaeth ardderchog gydag asiantaethau allanol ac yn dibynnu arnynt am gyngor arbenigol, cefnogaeth ac arweinyddiaeth pan fydd angen. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn trawsnewid i'r Cod ADY newydd.

Mr Thomas Gullick yw Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol (CADY).

Mr Andrew Barlow yw'r Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Cyflogir cynorthwywyr dysgu/gofal i gefnogi disgyblion sydd â datganiadau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, boed yn gorfforol, emosiynol neu am resymau ymddygiad neu academaidd.



# Additional Learning Needs

*The school's Policy on The Education of Children with Additional Learning Needs shows that we adhere to the Inclusion Handbook which has been published by the county to care for the requirements of those most and least able pupils. National tests in Literacy and Numeracy are set every Summer Term. Hereby, together with the regular careful assessments made by teachers throughout the year and the professional discussions that ensue the development of pupils, the school identifies those in need of special support. Where necessary, special arrangements are made to ensure that the teaching is geared to their needs. If they are included on the Additional Learning Needs register, parents/guardians are informed of this.*

*The work prepared for the children is differentiated within the planning of each teacher, taking into consideration the various abilities of the children in their class.*

*Each child on the Additional Learning Needs register has an Individual Development Plan and One Page Profile. Person Centred Reviews are held annually with parents for children on the ALN Register. It is the school's duty to review and evaluate the Statements and all the provision made for pupils with Additional Learning Needs at regular intervals.*

*The school has an excellent partnership with external agencies and depends on them for expert advice, support and leadership as required. The school is currently transitioning to the new ALN Bill.*

*Mr Thomas Gullick is the school's Additional Learning Needs Co-ordinator (ALNCO).*

*Mr Andrew Barlow is the governor with responsibility for Additional Learning Needs.*

*Teaching/Care Assistants are employed to support pupils with statements of Additional Educational Needs, whether on physical, emotional and behavioural or purely academic grounds.*



# Crefydd, gwerthoedd, moeseg ac Addoli ar y Cyd

Mae’r Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o holl gredoau yr ardal leol gan gynnwys safbwyntiau anghredinwyr. Mae’r ysgol yn dilyn Maes Llafur Cytun Cyngor Sir Gaerfyrddin fel fframwaith ar gyfer y sesiynau yma. Bellach, does dim hawl gan rieni dynnu eu plant allan o wersi Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol a chanllawiau o lywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod gan y plant y wybodaeth a dealltwriaeth eang sydd angen arnynt i ddatblygu’n ddinasyddion egwyddorol a gwybodus.

Nid oes gan Ysgol Gymunedol Bancffosfelen unrhyw gysylltiad penodol i enwad Crefyddol. Mae’r addoli ar y cyd a gynhelir yn yr ysgol yn adlewyrchu Cristnogaeth fel prif Grefydd Cymru ond yn dathlu yr holl brif grefyddau a dilynir yn y wlad. Os ydych yn dymuno tynnu eich plentyn allan o sesiynau addoli ar y cyd, yna dylech trafod y mater gyda’r Pennaeth.

# *Religion, values, ethics and Collective Worship*

*Ysgol Gymunedol Bancffosfelen develops pupils' knowledge and understanding of all beliefs in the local area including the views of non-believers. The school follows Carmarthenshire Council's Agreed Syllabus as a framework for these sessions. Parents now have no right to withdraw their children from Religion, values and ethics lessons in accordance with Welsh government guidelines. This ensures that the children have the broad knowledge and understanding they need to develop into principled and informed citizens.*

*Ysgol Gymunedol Bancffosfelen has no specific connection to a Religious denomination. The joint worship held at the school reflects Christianity as the main Religion of Wales but celebrates all the main religions that are followed in the country. If you wish to remove your child from joint worship sessions, then you should discuss the matter with the Headteacher.*

# Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb

Cyflwynir Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb mewn dull sensitif. Yn ogystal, yn ystod tymor y Gwanwyn neu'r Haf, mae Ymwelydd Iechyd yr Ysgol yn dosbarthu pecynnau 'Tyfu i Fyny' i Flwyddyn 6, gan drafod y canlynol: Newidiadau i'r Corff; newidiadau pellach i'r Corff. Mae Ymwelydd Iechyd y gymuned yn darparu cymorth pan fo angen. Mae'r ysgol yn darparu addysg gyflawn ymhob pwnc ac yn rhoi cyfleoedd i blant fod yn ymwybodol o fywyd yn yr ardal a thrwy Gymru gyfan.
Mae gan yr ysgol polisi penodol ar gyfer Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb sydd ar gael ar gais. Mae hwn yn rhan gorfodol o gwricwlwm yr ysgol a derbynnir pob disgybl gwersi addas sy'n adlewyrchu eu hoedran a'u aeddfedrwydd.

# Relationships and Sexuality Education

*Relationships and Sexuality Education is introduced sensitively. During the Spring or Summer term, the school's Health Visitor distributes 'Growing up' packs to Year 6, which discuss the following: Changes to the Body; Further Changes to the Body. The Community Health Visitor provides assistance when necessary. The school provides a full education in all the subjects and gives opportunities for children to be aware of life in the area and Wales as a whole.*
*The school has a specific Relationship and Sex Education policy which is available on request. This is a mandatory aspect of the school's curriculum and all pupils will be provided with appropriate lessons to reflect their age and maturity.*

# Gwisg Ysgol / *School Uniform*

Anogir y disgyblion i gadw at wisg swyddogol yr ysgol ar bob achlysur.

**Mae gan yr Ysgol wisg gydnabyddedig sef:**

Siwmper glas

Crys polo glas golau

Sgert llwyd

Trowsus llwyd

Esgidiau du

Teits llwyd

Cot ddwrglos



**Cit Chwaraeon yr Ysgol :**

Crys-T Gwyn, siorts, trwser tracwisg neu leggins glas tywyll a threinyrs.

**Cofiwch labeli pob dilledyn ag enw eich plentyn.**

*We encourage pupils to keep to the official school uniform on all occasions.*

***The School has a recognised uniform. It includes:***

*Blue sweatshirt*

*Light blue polo shirt*

*Grey skirt*

*Grey trousers*

*Black shoes*

*Grey tights*

*Waterproof coat*



***School Sports Kit :***

*White T-shirt, navy shorts, tracksuit or leggings and trainers.*

***Remember to label all clothing with your child's name.***

# Addysg Gorfforol / *Physical Education*

Seilir cyflwyniad Addysg Gorfforol trwy'r ysgol ar ofynion y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yng Nghwricwlwm i Gymru, a phwysleisir gwerth ymarfer corff trwy gydol yr ysgol fel bod pob disgybl yn deall y bwysigrwydd o nerth, cryfder ac hyblygrwydd i sicrhau sylfaen cryf ar gyfer iechyd da a ffitrwydd.

Gwneir peth o'r dysgu yma yn y neuadd, peth ar y buarth a pheth ar y gwair. Gwneir tipyn o ddefnydd o arbenigedd allanol, yn ogystal â staff yr ysgol.

*Throughout the school the delivery of Physical Education is based upon the demands of the what matters' statements in the Curriculum for Wales, and the value of physical exercise is emphasised throughout, so that each pupil understands the importance of stamina, strength and suppleness for ensuring a firm foundation for good health and fitness.*

*Some of this teaching is done in the hall, some on the yard and some on the grass. Considerable use is made of external expertise, in addition to school staff.*

# Cyngor Ysgol / *School Council*

Mae llais y plentyn yn bwysig yn Ysgol Gymunedol Bancffosfelen. Mae gweithdrefnau mewn lle i sicrhau bod y plant yn cael arwain eu dysgu a chynnig syniadau am yr hyn hoffen nhw ymchwilio iddo o fewn yr ysgol.

Mae aelodau o blant yr ysgol hefyd yn cynnal y cyngor ysgol. Mae'r cyngor yn gyfrifol am lawer iawn o agweddau yn yr ysgol gan gynnwys ymarfer corff, yr iaith Gymraeg, defnydd o gyfrifiaduron a'n gwaith elusennol. Mae'r cyngor ysgol yn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed a bod y plant yn datblygu yn unigolion cyfrifol.

*The child's voice is important at Ysgol Gymunedol Bancffosfelen. There are procedures in place to ensure that the children are allowed to lead their learning and offer ideas about what they would like to investigate within the school.*

*Members of the school's children also hold the school council. The council is responsible for many aspects in the school including physical exercise, the Welsh language, use of computers and our charity work. The school council ensures that the child's voice is heard and that the children develop into responsible individuals.*

# Cymdeithas Rhieni ac Athrawon / *Parent and Teacher Association*

Mae gan yr ysgol gymdeithas rhieni ac athrawon llewyrchus a gweithgar. Mae'r gymdeithas yn agored i unrhyw un sydd yn dymuno cefnogi'r ysgol trwy godi arian neu ein helpu i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i'r plant. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn dymhorol ac mae croeso cynnes i chi ymuno a rhannu eich syniadau.

*The school has a thriving and active parents' and teachers' association. The society is open to anyone who wishes to support the school by raising money or helping to provide rich opportunities for the children. Meetings are held termly, and you are warmly welcome to join and share your ideas.*

# Bwyd, bwyta ac yfed iach / *Food, healthy eating and drinking*

Mae polisi bwyta ac yfed iach gyda'r ysgol. Mae hawl gan y plant yfed dŵr yn y dosbarth pryd bynnag sydd ei angen. Fodd bynnag, nid ydyn yn caniatáu i blant ddod a diodydd llawn siwgr gyda nhw i yfed yn yr ysgol. Rydym yn annog plant i ddod a ffrwythau gyda nhw i'r ysgol i fwyta yn ddyddiol ond eto nid ydym yn caniatáu i fyrbrydau melys, llawn braster cael eu bwyta yn ystod amseroedd chwarae. Mae cinio twym maethlon yn cael ei ddarparu yn ddyddiol. Fodd bynnag, mae croeso i'ch plentyn ddod a phecyn bwyd gyda nhw i'r ysgol. Anogwn bod y pecyn mor iach ag sy'n bosib. Os ydych chi eisiau cyngor am sut i sicrhau bod y pecyn bwyd yn iachus, holwch aelod o staff am help.

*The school has a healthy eating and drinking policy. The children have the right to drink water in the classroom whenever they need it. However, they do not allow children to bring sugary drinks to drink at school. We encourage children to bring fruit with them to school to eat daily but again we do not allow sweet, fatty snacks to be eaten during play times. A nutritious hot lunch is provided daily. However, your child is welcome to bring a packed lunch with them to school. We encourage the package to be as healthy as possible. If you want advice on how to ensure that the packed lunch is healthy, ask a member of staff for help.*

# Cynaliadwyedd / *Sustainability*

Mae Ysgol Gymunedol Bancffosfelen yn Ysgol Eco. Rydym yn ceisio ein gorau i addysgu'r plant sut i fyw mewn ffordd cynaliadwy a chyfrifol. Rydym yn ailgylchu a lleihau gwastraff cymaint ag y gallwn ac yn datblygu gwybodaeth y plant am sut i fod yn ddinasyddion cyfrifol o'r ardal leol trwy ofalu am fywyd gwyllt a'r amgylchedd.



*Ysgol Gymunedol Bancffosfelen is an Eco School. We try our best to teach the children how to live in a sustainable and responsible way. We recycle and reduce waste as much as we can and develop the children's knowledge of how to be responsible citizens of the local area by looking after wildlife and the environment.*



# Canmoliaeth a Chwynion / *Compliments and Concerns*

Petai rhieni/warchodwyr yn teimlo'n hapus iawn gydag agwedd o fywyd yr ysgol, mae llythyr o ddiolch neu air o longyfarch yn mynd yn bell tuag at wobrwyo staff am eu hymdrechion a'u hymrwymiad. Mewn swydd sydd yn galed ac yn anfaddeuol ar adegau, mae gwerthfawrogiad yn helpu codi calon.

Annogir pob rhiant/warchodwr i dynnu sylw'r Pennaeth at unrhyw gonsyrn ar unwaith. Dyma'r ffordd mwyaf cyflym ac effeithiol i ymdrin â'r mater. Os na fyddwch yn hapus gyda'r ffordd mae'r mater wedi cael ei ddatrys, gellir anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethol yn nodi'r consyrn.

*Should parents/guardians feel particularly pleased or happy with an aspect of school life, a letter of thanks or congratulations can go a long way to rewarding staff for their efforts and commitment. In a hard and unforgiving occupation, it makes them feel valued.*

*All parents/guardians are urged to bring any concerns to the attention of the Headteacher at once. This is the quickest and most effective way to address the matter. Should the matter not be resolved to the parents' satisfaction, a letter may be sent to the Chair of the Governing Body setting out the concern.*




Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council